

## Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel

### Methodolegau ac Offer Arfaethedig ar gyfer yr Adolygiad

#### 1. Diben

1.1 Diben y papur hwn yw nodi mewn mwy o fanylder y methodolegau a'r offer argymelledig a fydd yn cael eu defnyddio i gynnal yr Adolygiad *Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel* a cheisio cytundeb â'n dull.

#### 2. Cefndir

2.1 Mae'r fframwaith ar gyfer yr adolygiad – fel a nodir yn **Eitem 3** – yn rhannu'r adolygiad yn chwe cham allweddol, y gall rhai ohonynt gydredeg â'i gilydd, sef:

- Diweddarau'r Prosesau Asesu a Chynllunio Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol
- Adolygiad a dadansoddiad bwrdd gwaith o dystiolaeth a data presennol
- Ymgynghori a chyflwyno tystiolaeth newydd (gan gynnwys astudiaethau achos)
- Llundio argymhellion yn seiliedig ar y canfyddiadau
- Profi'r argymhellion drafft, neu gynnal gwiriad realiti ohonynt
- Cyhoeddi'r argymhellion terfynol

2.2 Fel a gytunwyd yn yr amodau gorchwyl (**Eitem 2**) a'r fframwaith (**Eitem 3**), bydd yr adolygiad yn defnyddio ac yn dibynnu ar yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, a adwaenir fel y Pum Ffordd o Weithio, i archwilio fframweithiau (gan gynnwys rhai deddfwriaethol a chyllidebu), strwythurau, polisiau a phrosesau gwasanaethau cyhoeddus presennol.

#### 3. Trywyddau Ymholi

3.1 Mae'r trywyddau ymholi wedi cael eu datblygu ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gydymffurfio â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (a adwaenir fel y 'Pum Ffordd o Weithio'):

- Ystyried y **tymor hir** fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy eu hunain;
- Defnyddio dull **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn ystyried yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt;
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i ddatrysiadau cynaliadwy;
- Deall achosion sylfaenol materion i'w **hatal** rhag digwydd.

3.2 Y dull a awgrymir yw fframio'r trywyddau ymholi mewn ffordd weithredol a heriol, megis: "*Beth y mae angen iddo newid i alluogi partneriaid gwasanaethau cyhoeddus/statudol yng Nghymru i...*"

3.3 Yn ogystal â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, gallai'r trywyddau ymholi ystyried y dulliau canlynol hefyd:

- Y 'Nodweddion Partneriaeth Effeithiol' ('Hallmarks of Effective Partnership') gynt a ddatblygwyd yn wreiddiol fel rhan o'r Asesiad o Blismona a Diogelwch Cymunedol (APACS) ond sy'n dal i gael eu defnyddio mewn prosesau Trosolwg a Chraffu ar gyfer PDCau yn Lloegr –
  - ✓ Arweinyddiaeth Rymus ac Effeithiol
  - ✓ Proses fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth
  - ✓ Strwythur Cyflawni Effeithiol ac Ymatebol
  - ✓ Atebolrwydd Gweladwy ac Adeiladol
  - ✓ Gwybodaeth a Sgiliau Priodol
- Cwestiynau arolygu thematig traddodiadol o'r un math â Gwerth Gorau/Gwella yng Nghymru ;
- Y model SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau);
- Dull Ymholi Gwerthfawrogol (e.e. 'Creu Ysgogiadau Cadarnhaol');
- Cyfuniad o'r uchod (e.e. ymholi gwerthfawrogol ar gyfer 'cynnwys' dinasyddion ond y Pum Ffordd/Nodweddion i weithwyr proffesiynol).

3.4 Mae'r canlynol wedi cael eu cynnig fel trywyddau ymholi allweddol sy'n cyfuno'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Nodweddion Partneriaeth Effeithiol:

1. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i gynyddu i'r eithaf/sefydlu a chynnal prosesau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth sy'n adnabod achosion sylfaenol materion diogelwch cymunedol er mwyn eu **hatal** rhag digwydd?
2. Beth y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i sefydlu a chynnal strwythurau cyflawni effeithiol ac ymatebol sy'n gweithio'n **gydweithredol** i ddod o hyd i ddatrysiadau **hirdymor** i faterion diogelwch cymunedol?
3. Yr hyn y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i **integreiddio** asesiadau a chynlluniau strategol diogelwch cymunedol yn well â phrosesau asesu a chynllunio statudol eraill (e.e. Y Rhaglen Lywodraethu, prosesau cynllunio sengl BGCau, Cynlluniau Heddlu a Throsedd)?
4. Yr hyn y mae angen iddo newid i alluogi gwasanaethau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru i ddarparu atebolrwydd gweladwy ac adeiladol mewn perthynas â materion diogelwch cymunedol sy'n ennyn ymgysylltiad ac yn **cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?

3.5 **Argymhelliad:** Bod fersiwn o'r pedwar trywydd ymholi a nodir yn 3.4 yn cael ei mabwysiadu fel y dull craidd ar gyfer yr adolygiad, ond gan adael cyfle i ddefnyddio dulliau eraill a nodir yn 3.3 (e.e. ymholi gwerthfawrogol) ar gyfer gweithgareddau penodol.

#### **4. Diweddarau'r Prosesau Asesu a Chynllunio Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol**

4.1 Mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru wedi dechrau gweithio gyda'u partneriaid lleol i ddiweddarau'r ffordd y cyflawnir diogelwch cymunedol mewn ardaloedd lleol ym mhob heddlu ac mae gweithgarwch eisoes yn mynd rhagddo mewn nifer o ardaloedd. Mae pob Comisiynydd yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl ac awdurdodau lleol i adfywio gwaith diogelwch cymunedol yn ei ardal a byddant yn darparu gwybodaeth am gynnydd i oleuo gwaith y Grŵp Trosolwg.

4.2 Bydd dadansoddiad o'r ymarfer diweddarau a pha mor lwyddiannus ydoedd yn cael ei gynnal unwaith y bydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi cwblhau'r darn yma o waith ac efallai y bydd cyfle ar gyfer gweithdy 'canfyddiadau a gwersi a ddysgwyd' a fydd yn cael ei gynnal gan y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'u timau.

4.3 Er y gallai'r dadansoddiad o'r ymarfer diweddarau gael ei fframio gan ddefnyddio'r trywyddau ymholi y cytunwyd arnynt, gallai brofi'n fwy effeithiol defnyddio dull SWOT traddodiadol neu ddull tebyg.

#### **5. Adolygiad Bwrdd Gwaith:**

5.1 Gellir dechrau ymchwilio i amrywiaeth eang o dystiolaeth a data presennol a'u dadansoddi ar unwaith hefyd a gallai'r deunydd gwreiddiol posibl ar gyfer yr adolygiad bwrdd gwaith hwn gynnwys:

- Tystiolaeth o unrhyw ymholiadau craffu diweddar gan PDCau/Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru?
- Tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer adroddiad SAC?
- Unrhyw bapurau ymchwil academaidd cyfoes a pherthnasol?
- Unrhyw ddata ymgynghori â dinasyddion a gasglwyd yn ddiweddar ynghylch themâu DC (e.e. Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, BGCau)?
- Unrhyw adroddiadau thematig perthnasol fel rhan o gyfundrefnau arolygu yng Nghymru (e.e. AEM ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gweithio mewn partneriaeth neu reoli troseddwr)?
- Data a gasglwyd ar gyfer unrhyw 'archwiliadau' diweddar mewn perthynas â Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998?
- Data a gasglwyd ar gyfer asesiadau llesiant presennol BGCau?
- Data a gasglwyd ar gyfer unrhyw asesiadau anghenion lechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles diweddar?

- Tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer unrhyw adroddiadau/astudiaethau achos perthnasol diweddar eraill (e.e. Bywydau Diogel)
- Adolygiadau neu werthusiadau seiliedig ar dystiolaeth o 'arfer effeithiol' mewn rhannau eraill o'r DU – Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lleogr (yn enwedig modelau maerol Manceinion/Birmingham)
- Adolygiadau neu werthusiadau seiliedig ar dystiolaeth o 'arfer sy'n dod i'r amlwg' yng Nghymru

5.2 Er mwyn darparu ffocws clir ar gyfer dadansoddi deunyddiau o'r fath, argymhellir bod y 'trywyddau ymholi' y cytunwyd arnynt (3.4) yn cael eu defnyddio hefyd gan y rhai sy'n cael gorchwyl i gynnal yr adolygiad a'r dadansoddiad bwrdd gwaith. Anogir aelodau'r Grŵp Trosolwg hefyd i amlygu dogfennaeth addas i'w hystyried.

5.3 Mae cymorth ymchwil a dadansoddi ôl-raddedig ar sail pro bono wedi cael ei gynnig gan Adran Troseddeg Prifysgol Caerdydd, gan weithio trwy Ganolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth wedi cael ei ddrafftio ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddeg Llywodraeth Cymru a'r brifysgol i gwblhau'r trefniant hwn. Bydd y cymorth hwn yn ymestyn i ddadansoddi'r dystiolaeth ymgynghori (gweler *adran 6* isod).

5.4 Rhagwelir y gallai'r cymorth hwn gael ei wella trwy gydweithredu gydag adnoddau dadansoddol eraill a gynigir trwy'r Grŵp Trosolwg a thrwy gysylltiadau â rhwydweithiau dadansoddwyr megis y pwyllgor gwaith a'r gweithgor Dadansoddeg a Pherfformiad Ymchwil Integredig a sefydlwyd trwy Fwrdd IOM Cymru.

5.5 **Argymhelliad:** Bod y Grŵp Trosolwg yn cymeradwyo'r dull a nodir yn *adran 5* ac yn ystyried deunyddiau gwreiddiol sydd ar gael i'w hadolygu a'u dadansoddi.

## 6. Ymgynghori:

6.1 Fel a nodir yn y datganiad diweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (9 Mawrth), bydd angen i'r adolygiad fod "mor gynhwysol â phosibl", ac ennyn ymgysylltiad a chynnwys asiantaethau datganoledig ac asiantaethau heb eu datganoli. Yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, bydd angen iddo hefyd gynnwys yr amrywiaeth o ddinasyddion y mae'n debygol y bydd argymhellion terfynol yr adolygiad yn effeithio arnynt.

6.2 Ar yr un pryd mae'n bwysig osgoi creu 'diwydiant adolygu' a cheisio cynyddu i'r eithaf y defnydd o adnoddau presennol a manteisio ar rwydweithiau a strwythurau presennol, gan ychwanegu dim ond os oes bylchau amlwg i'w llenwi. I'r perwyl hwn, mae gwaith cychwynnol i 'fapio rhanddeiliaid' yn cael ei wneud gan amcanu at ymgysylltu dros y misoedd nesaf gan ddefnyddio'r trywyddau ymholi y cytunwyd arnynt. Felly anogir tîm yr adolygiad, gan gynnwys aelodau'r

Grŵp Trosolwg, i ddefnyddio eu rhwydweithiau a'u dulliau cynnwys i ysgogi trafodaeth ac ymatebion yn seiliedig ar y trywyddau ymholi y cytunwyd arnynt.

6.3 Mae offer ymgynghori eraill yr argymhellir eu hystyried yn cynnwys:

- Ysgogi ymatebion ysgrifenedig neu dystiolaeth 'arbenigol' unigol;
- Creu arolwg ar y we sydd â ffocws ar naratif (e.e. SenseMaker);
- Defnyddio ymgyrch wedi'i frandio yn y cyfryngau cymdeithasol (e.e. ffrwd Twitter #SaferCommunities);
- Cynnal nifer fach o gyfweiliadau strwythuredig gyda sampl sy'n cynrychioli rhanddeiliaid allweddol;
- Trefnu grwpiau ffocws neu weithdai penodol (gallent gael eu cynnal fel rhan o gyfarfodydd presennol/sefydledig megis IOM Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan);
- Defnyddio gweithgarwch model Kafka gydag unigolion neu grwpiau bach i archwilio astudiaethau achos penodol (e.e. i brofi cymhlethdodau gweinyddol neu brofiad defnyddwyr);
- Trefnu i 'gysgodi' prosiectau/gweithgareddau penodol – yn enwedig arfer sy'n dod i'r amlwg neu sy'n arloesol;
- Cynnal ymchwiliadau â safleoedd i arsylwi ar arfer effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth neu wedi'i werthuso.

6.4 Bydd tystiolaeth a gesglir gan ddefnyddio un neu fwy o'r offer ymgynghori hyn yn cael ei dadansoddi hefyd fel a nodir yn *adran 5*.

6.5 **Argymhelliad:** Bod y Grŵp Trosolwg yn cymeradwyo'r dull a nodir yn *adran 6* ac yn cytuno pa offer ymgynghori ychwanegol (6.3) ddylai tîm yr adolygiad eu mabwysiadu, gan roi sylw arbennig i ateb gofynion o ran cynnwys dinasyddion.

## 7. Profi'r Argymhellion Drafft

7.1 Unwaith y bydd y Grŵp Trosolwg wedi cael y cyfle i ystyried y dadansoddiad a'r canfyddiadau o'r camau casglu tystiolaeth a nodir yn *adrannau 4-6* ac wedi llunio nifer o argymhellion seiliedig ar dystiolaeth o fewn y cwmpas (fel a nodir yn yr amodau gorchwyl), awgrymir bod prawf 'gwiriad realiti' o'r argymhellion drafft yn cael ei gynnal.

7.2 Yn ogystal â chyhoeddi'r argymhellion drafft, ochr yn ochr â chanfyddiadau allweddol yr adolygiad, cynigir cydgysylltu nifer cyfyngedig o ddiwyddiadau amlasiantaeth rhanbarthol fel rhan o'r Adolygiad *Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel* ledled Cymru yn gynnar yn yr hydref. Gallai'r digwyddiadau hyn gael eu 'lletya' gan rwydweithiau rhanbarthol presennol – megis bwrdd partneriaeth diogelwch cymunedol ranbarthol Gwent Fwy Diogel neu Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru.

7.3 Bydd fformat y digwyddiadau hyn yn seiliedig ar ryw fath o gyflwyniad cryno ar y canfyddiadau allweddol a'r argymhellion gyda thrafodaeth ryngweithiol wedi'i hwyluso'n cael ei chynnal wedyn i 'brofi'r' argymhellion, y rhesymeg drostynt a materion posibl sy'n deillio ohonynt.

7.4 **Argymhelliad:** Bod y Grŵp Trosolwg yn cymeradwyo'r dull a nodir yn *adran 7*.

## **8 Gofynion o ran Adnoddau**

8.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud trefniadau bod secondai ag arbenigedd ym maes diogelwch cymunedol yn arwain ac yn cydgysylltu gweithgarwch adolygu ar ran y Grŵp Trosolwg, ynghyd â chymorth dadansoddi ac ymchwil a roddir gan Ganolfan Troseddau a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru.

8.2 **Argymhelliad:** Bod y Grŵp Trosolwg hwn yn ystyried y gofynion posibl o ran adnoddau ychwanegol sy'n deillio o'r papur hwn a sut orau i'w hateb.